

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL
CYMRU**

PWYLLGOR DEDDFAU

YR AIL GYNULLIAD

AIL ADRODDIAD BLYNYDDOL

2004 - 2005

CYNNWYS	Rhif y dud.
RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR DEDDFAU	8
GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH	9
YR AIL GYNULLIAD: DADANSODDIAD O'R AIL FLWYDDYN	10
CYFLWYNIAD	10
CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR: RHEOL SEFYDLOG 11.7	11
DOSBARTHU PROBLEMAU A NODWYD GAN Y PWYLLGOR O DAN REOL SEFYDLOG 11.7 (SIART BAR)	12
SYLWADAU	13
GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH: 2004 - 2005	14
GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH: 2004 - 2005 (SIART CYLCH)	14
MATERION GWEITHREDOL	14
GWEITHGAREDDAU ERAILL	15
DEFNYDDIO TROEDNODIADAU WEDI'U RHIFO YN LLE RHAI Â LLYTHRENNAU	15
ANFANTEISION Y WEITHDREFN WEITHREDOL	15
CYSONDEB WRTH DDRAFFTIO IS-DEDDFWRIAETH	15
DIWYGIO RHEOL SEFYDLOG 11.7	16
LC996 - RHEOLIADAU CYNHYRCHION SY'N TARDDU O ANIFEILIAID (MEWNFORION TRYDYDD GWLEDYDD) (CYMRU) 2005	18
LC1053 - RHEOLIADAU ASiantaethau MABWYSIADU (CYMRU) 2005	18
LC1105 - RHEOLIADAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (TREULIAU TEITHIO A PHEIDIO Â CHODI TÂL) (DIWYGIO) (CYMRU) 2005	18
LC1108 - RHEOLIADAU ADDYSG (TREFNIADAU YMSEFYDLU AR GYFER ATHRAWON YSGOL) (CYMRU) 2005	19

LC1084 - GORCHYMYN TAI (HAWL I BRYNU) (BLAENORIAETH ARWYSTLON) (CYMRU) 2005	19
CRAFFU AR Y PAPUR GWYN: TREFN LYWODRAETHU WELL I GYMRU CYFRANIAD Y PWYLLGOR DEFFAU I'R PWYLLGOR AR Y PAPUR GWYN, TREFN LYWODRAETHU WELL I GYMRU	19
LC999 - RHEOLIADAU'R DRETH GYNGOR (TREFNIADAU TROSIANNOL) (CYMRU) 2004 ac LC1060 THE COUNCIL TAX (REDUCTIONS FOR DISABILITIES AND TRANSITIONAL ARRANGEMENTS) (WALES) (AMENDMENT) REGULATIONS 2005 (<i>GWNAED Y RHEOLIADAU YN SAESNEG YN UNIG</i>)	20
LC1023 - RHEOLIADAU CWOTÂU CYNNYRCH LLAETH (CYMRU) 2005	20
OFFERYNNAU STATUDOL A YSYTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU CRYNODEB O OFFERYNNAU STATUDOL SY'N CYNWYS PWYNTIAU A NODWYD O DAN REOL SEFYDLOG 11.7	21 28
LC945 Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbed) (Cymru) 2004	28
LC947 Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2004	28
LC948 Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004	28
LC954 Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004	28
LC959 Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Deddf Ymaelodi ynghylch y Weriniaeth Tsiec a Gwladwriaethau Eraill) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004	29
LC961 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004	29
LC962 Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2004	29
LC963 Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004	30
LC964 Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004	30

LC970	The Oil and Fibre Plant Seed (Wales) Regulations 2004 (<i>Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig</i>)	30
LC972	Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub (Cychwyn) (Cymru) 2004	31
LC974	Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004	31
LC977	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2004	31
LC978	Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004	32
LC980	Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004	32
LC981	Rheoliadau Porthiant, Porthiant (Samplu a Dadansoddi) a Phorthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2004	32
LC983	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004	32
LC984	The Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No. 1) Order 2004 (<i>Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig</i>)	33
LC985	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2) 2004	33
LC987	Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Apelau) (Cymru) 2004	33
LC989	Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004	33
LC990	Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004	34
LC991	Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004	34
LC996	Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005	35
LC999	Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Trefniadau Trosiannol) (Cymru) 2004	35

LC1007	Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005	36
LC1010	Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005	36
LC1011	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005	36
LC1012	Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005	37
LC1013	Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005	37
LC1014	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005	37
LC1015	Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005	38
LC1018	Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2005	38
LC1019	Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2005	38
LC1022	Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2005	39
LC1023	Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005	39
LC1025	Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005	40
LC1034	Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Arolygiadau Gofal Iechyd) (Cymru) 2005	40
LC1036	Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) 2005	41
LC1037	Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005	41
LC1038	Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005	41
LC1040	Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005	42

LC1042	The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 (<i>Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig</i>)	43
LC1049	Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005	44
LC1053	Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005	44
LC1056	The Fodder Plant Seed (Wales) Regulations 2005 (<i>Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig</i>)	44
LC1057	Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005	45
LC1059	The Council Tax (Situation and Valuation of Dwellings) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 (<i>Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig</i>)	45
LC1065	Rheoliadau Tenantiaethau Isradd (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2005	45
LC1068	Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dull Mynediad, Apelau etc.) (Cymru) 2005	46
LC1074	Rheoliadau Landlord a Tenant (Hysbysu o Rent) (Cymru) 2005	46
LC1079	Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2005	46
LC1080	Rheoliadau Cynhyrchu Colagen Buchol y Bwriedir i Bobl ei Fwyta yn y Deyrnas Unedig (Cymru) 2005	47
LC1083	Rheoliadau Cyflasynnau Mwg (Cymru) 2005	47
LC1087	Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005	47
LC1090	Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2005	47
LC1091	Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005	48
LC1092	Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005	48
LC1093	Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005	48

LC1094	The Feed (Corn Gluten Feed and Brewers Grains) (Emergency Control) (Wales) Regulations 2005 (<i>Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig</i>)	49
LC1100	Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005	49
LC1101	Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005	49
LC1105	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005	49
LC1107	Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005	50
LC1108	Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005	50
LC1113	Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2005	51
LC1116	Rheoliadau Ombwdsmon Tai Cymdeithasol (Cymru) 2005	51
LC1121	Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2005	51
LC1123	Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005	51
	ADRODDIAD I AELODAU: CRYNODEB O FATERION A GODWYD GAN Y PWYLLGOR YN EI ADRODDIADAU (Tabl)	53
	PWYNTIAU A NODWYD O DAN REOL SEFYDLOG 11.7	65

YR AIL GYNULLIAD

AIL ADRODDIAD BLYNYDDOL

2004 - 2005

□□□□

CRYNODEB O WAITH Y PWYLLGOR DEDDFAU 2004-2005

RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR DEDDFAU

Noda Comisiwn Richard mai is-ddeddfwriaeth yw un o ganlyniadau mwyaf sylweddol gwaith y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Deddfau yn sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth a gynhyrchir gan y Cynulliad yn cydymffurfio â gofynion y Rheolau Sefydlog a Deddf Llywodraeth Cymru, a thrwy hynny'n cynorthwyo â'r broses o ddrafftio Offerynnau Statudol diweddar, cynhwysfawr sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n gyson â'r byd modern yng Nghymru. Mae Ail Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfau (yr Ail Gynulliad) yn adlewyrchu blwyddyn brysur arall o waith yn craffu ar is-ddeddfwriaeth Cymru mewn cyfarfodydd wythnosol.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, bu'r Aelodau canlynol yn gwasanaethu'r Pwyllgor: Christine Chapman AC, Tamsin Dunwoody AC, Irene James AC, Elin Jones AC a Sandy Mewies AC. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn cynnwys deg Aelod: Glyn Davies AC (Cadeirydd), Eleanor Burnham AC, Rosemary Butler AC, Jeff Cuthbert AC, Janice Gregory AC, Christine Gwyther AC, Ann Jones AC, Laura Jones AC, Dai Lloyd AC a Janet Ryder AC. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi'm gwerthfawrogiad i'm cyd-Aelodau ar y Pwyllgor (yn y gorffennol ac yn y presennol) am eu cyfraniadau i waith y Pwyllgor. Roedd eu brwdfrydedd yn golygu y bu'n bosibl i ni graffu ar gryn dipyn o ddeddfwriaeth o fewn amserlen waith gaeth iawn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor a swyddogion y Pwyllgor am eu cyngor a'u cymorth gweinyddol parhaus. Rwyf yn hyderus y bydd gwaith y tîm gweinyddol yn parhau i fodloni gofynion y Pwyllgor Deddfau yn y flwyddyn i ddod.

Glyn Davies, AC
Cadeirydd Pwyllgor Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn prosesu deddfwriaeth mewn pedair ffordd wahanol: drwy Weithdrefn Safonol, Gweithdrefn Weithredol, Gweithdrefn Gyflym neu Weithdrefn Estynedig.

Gweithdrefn Safonol

O dan y Weithdrefn Safonol, mae'r Gweinidog cyfrifol yn cyhoeddi Gorchymyn drafft i'r holl aelodau ac yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylai gael ei ystyried gan bwyllgor pwnc. Fel arfer mae'r Gweinidog hefyd yn gwneud arfarniad rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol y Gorchymyn drafft. Wedyn mae'r Gweinidog yn cyflwyno'r Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor Busnes ac yn argymhell ynghylch a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor pwnc. Ar ôl ei ystyried gan y Pwyllgor Busnes, mae'r Dirprwy Lywydd yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc (gweithdrefn estynedig) ac, ar ôl unrhyw adroddiad gan y pwyllgor pwnc, mae'r Gweinidog yn cyflwyno'r Gorchymyn drafft yn y Cyfarfod Llawn ac yn ei gyfeirio at y Pwyllgor Deddfau. Mae'r Pwyllgor Deddfau yn adrodd wedyn ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r Gorchymyn drafft. Wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, gellir gwneud y Gorchymyn (Rheol Sefydlog 22).

Gweithdrefn Estynedig

O dan y weithdrefn estynedig anfonir Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc gan y Dirprwy Lywydd fel yr amlinellir yn y disgrifiad o'r Weithdrefn Safonol uchod (Rheol Sefydlog 22.6 – 22.8).

Gweithdrefn Gyflym

O dan y Weithdrefn Gyflym mae'r Cynulliad, ar gynnig y Gweinidog, yn pleidleisio i gymeradwyo Gorchymyn drafft heb unrhyw drafodaeth (Rheol Sefydlog 22.25).

Gweithdrefn Weithredol

O dan y Weithdrefn Weithredol, gall Cabinet y Cynulliad benderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio ag un neu fwy o amryw o gamau yn y weithdrefn safonol, gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth gan y Cynulliad. Pan wneir Gorchymyn heb iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad gall Aelod gyflwyno cynnig, o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y Gorchymyn, y dylid diddymu'r Gorchymyn. Os nad yw wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfau cyn iddo gael ei wneud, fe'i cyfeirir i'r Pwyllgor wedi hynny. Byddai unrhyw wallau a fyddai'n cael eu nodi o dan reol sefydlog 11.5 yn cael eu cywiro y tro nesaf y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn deddfu ar y pwnc. Fodd bynnag, petai'r gwall yn un difrifol, byddai angen gwneud deddfwriaeth i ddiwygio'r offeryn gwreiddiol mor fuan â phosib.

YR AIL GYNULLIAD: DADANSODDIAD O'R AIL FLWYDDYN

CYFLWYNIAD

Rôl y Pwyllgor Deddfau yw craffu ar is-ddeddfwriaeth berthnasol y Cynulliad i sicrhau ei bod o fewn cwmpas y pwerau galluogi ac wedi'i drafftio'n gywir. Nodir ei sail statudol yn adrannau 58 a 59 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a rhestrir ei swyddogaethau yn Rheol Sefydlog 11.

Hwn yw'r Ail Adroddiad Blynyddol ar waith y Pwyllgor Deddfau (yr Ail Gynulliad), ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Gorffennaf 2004 a Gorffennaf 2005. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu'r Pwyllgor yn ystyried cyfanswm o **179** o ddarnau o is-ddeddfwriaeth.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi darlun cyffredinol o drafodaethau'r Pwyllgor ar bob darn o ddeddfwriaeth a graffwyd ac yn ystyried effaith adroddiadau'r Pwyllgor. Cyflwynir y canlyniadau ar ffurf tabl er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd.

Mae'r adroddiad hefyd yn ymdrin ag agweddau ehangach ar waith y Pwyllgor gan gynnwys ei bryder ynghylch defnyddio iaith rhyw benodol mewn deddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol a deddfwriaeth nad yw'n ddwyieithog. Caiff barn y Pwyllgor ar y Papur Gwyn ei chynnwys hefyd.

CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR: RHEOL SEFYDLOG 11.7

Mae Rheol Sefydlog 11.7 yn nodi ar ba seiliau y dylai'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth. Mae'r seiliau fel a ganlyn:

- amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad;
- mae'n ymddangos bod y ddeddfwriaeth yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau;
- mae wedi ei heithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;
- mae'n ymddangos bod iddi effaith ôl-weithredol anawdurdodedig;
- mae angen eglurhad pellach o'i ffurf neu ei hystyr;
- mae'n ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol;

ac o fis Gorffennaf 2005

- mae'n methu â bodloni gofynion statudol neu ofynion cyfreithiol eraill;
- mae'n ymddangos bod anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.


Cyn adrodd i'r Cynulliad, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 11.6, hysbysu'r Gweinidog Cynulliad perthnasol am y bwriad hwn, a'i wahodd ef neu hi i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor.

Yn ystod y cyfnod o adrodd (Gorffennaf 2004 - Gorffennaf 2005) ystyriodd y Pwyllgor **179** o ddarnau o ddeddfwriaeth.

Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth ar **69** achlysur gwahanol. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd yn bosibl cywiro'r diffygion hynny drwy Femorandwm Cywiriadau: **60** o gyfanswm o **60** achlysur.

- ymddengys fod y drafftio'n wallus – **24** achos;
- roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **10** achos;
- ymddengys y drafftio'n ddiffygiol ac roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **9** achos;
- ymddengys y drafftio'n ddiffygiol ac roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr – **7** achos;
- ymddengys y drafftio'n ddiffygiol; roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg; roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr – **7** achos;
- roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr – **4** achos;
- roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg; roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr – **2** achos;
- ymddengys y drafftio'n ddiffygiol; roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg; roedd amheuaeth o ran a oedd y ddeddfwriaeth yn dod o dan bwerau'r Cynulliad – **1** achos;

- ymddengys fod y drafftio'n wallus; roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr; ymddengys fod gan y ddeddfwriaeth effaith ôl-weithredol – 1 achos;
- ymddengys fod y drafftio'n wallus; roedd defnydd anarferol neu annisgwyl o bwerau'r Cynulliad – 1 achos;
- ymddengys fod y drafftio'n wallus; roedd defnydd anarferol neu annisgwyl o bwerau'r Cynulliad; roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – 1 achos;
- roedd amheuaeth o ran a oedd y ddeddfwriaeth yn dod o dan bwerau'r Cynulliad – 1 achos
- ymddengys fod y drafftio'n wallus; roedd defnydd anarferol neu annisgwyl o bwerau'r Cynulliad; roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg; roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr – 1 achos.



- 1 - ymddengys fod y drafftio'n ddiffygiol;
- 2 - roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg;
- 3 - ymddengys fod y drafftio'n ddiffygiol ac roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg;
- 4 - ymddengys fod y drafftio'n ddiffygiol ac roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr;
- 5 - ymddengys fod y drafftio'n ddiffygiol; roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg; ac roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr;
- 6 - roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr;

- 7** - roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg; roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr;
- 8** - ymddengys fod y drafftio'n ddiffygiol; roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg; roedd amheuaeth o ran a oedd y ddeddfwriaeth yn dod o dan bwerau'r Cynulliad;
- 9** - ymddengys fod y drafftio'n ddiffygiol; roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr; ymddengys fod gan y ddeddfwriaeth effaith ôl-weithredol;
- 10** - ymddengys fod y drafftio'n ddiffygiol; roedd defnydd anarferol neu annisgwyl o bwerau'r Cynulliad;
- 11** - ymddengys fod y drafftio'n ddiffygiol; roedd defnydd anarferol neu annisgwyl o bwerau'r Cynulliad; roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg;
- 12** - roedd amheuaeth o ran a oedd y ddeddfwriaeth yn dod o dan bwerau'r Cynulliad;
- 13** - ymddengys fod y drafftio'n ddiffygiol; roedd defnydd anarferol neu annisgwyl o bwerau'r Cynulliad; roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg; roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr.

SYLWADAU

Heblaw am adrodd yn ffurfiol yn unol â Rheol Sefydlog 11.7, mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad wedi cynnwys sylwadau ar fân ddiffygion.

Nododd y Pwyllgor achosion lle'r oedd y drafftio'n ddiffygiol ar **85** achlysur a gwnaeth awgrymiadau ar yr angen am fwy o eglurder ar **21** achlysur. Daethpwyd ar draws gwallau teipograffyddol mewn **9** achos. Roedd **2** achos yn cynnwys gwallau gramadegol.

Er bod y rhan fwyaf o'r Offerynnau Statudol wedi dilyn awgrym y Pwyllgor y dylid osgoi iaith rhyw benodol, nododd y Pwyllgor **9** enghraifft o iaith rhyw benodol.

Mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio deddfwriaeth ddwyieithog heblaw pan fo hynny'n amhriodol neu pan nad yw'n rhesymol ymarferol. Ni chafodd **13** o'r **179** o Offerynnau Statudol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor eu drafftio'n ddwyieithog. Nodwyd mân anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg mewn **8** achos.


O gyfanswm o **179** o Offerynnau Statudol a ystyriwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2004 a mis Gorffennaf 2005, nid oedd angen i'r Pwyllgor wneud unrhyw sylwadau mewn cysylltiad â **110** o Orchmynion. Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i dalu sylw arbennig i ddeddfwriaeth ar **69** achlysur ar wahân. O'r rhain, roedd **60** fersiwn terfynol wedi cymryd holl awgrymiadau'r Pwyllgor i ystyriaeth; roedd **2** fersiwn terfynol wedi cynnwys rhai o'r awgrymiadau; roedd **6** fersiwn terfynol heb gynnwys yr awgrymiadau; ystyriwyd pwyntiau'r Pwyllgor a bwriedir eu diwygio trwy ddefnyddio Offeryn Statudol sy'n diwygio mewn **1** achos. Dylid nodi y daethpwyd ar draws canran gymharol uchel o fersiynau printiedig

nad oedd yn cynnwys awgrymiadau'r Pwyllgor mewn cysylltiad â'r pwyntiau a godwyd o dan Reol Sefydlog 11.7 (h.y., 6 o'r 69 fersiwn terfynol) mewn Offerynnau Statudol a oedd yn dilyn y weithdrefn Weithredol (cyhoeddir yr Offerynnau hyn cyn i'r Pwyllgor eu gweld).

Mewn sawl achos, gofynnwyd i gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wneud sylwadau ar ddrafftiau cynnar o'r ddeddfwriaeth. Canlyniad hyn oedd cywiro nifer sylweddol o bwyntiau drafft a phwyntiau eraill cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor.

GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH: 2004 - 2005

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn prosesu deddfwriaeth mewn pedair ffordd wahanol: drwy'r Weithdrefn Safonol, y Weithdrefn Weithredol, y Weithdrefn Garlam a'r Weithdrefn Estynedig. O'r cyfanswm o **179** o Orchmynion y rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth iddynt yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf 2004 a Gorffennaf 2005, proseswyd **70** achos (39%) drwy'r Weithdrefn Safonol; **31** achos (17%) drwy'r Weithdrefn Weithredol; **76** achos (42%) drwy'r Weithdrefn Garlam a **2** achos (1%) drwy'r Weithdrefn Estynedig.



MATERION GWEITHREDOL

Cynhaliodd y Pwyllgor Deddfau gyfarfodydd bron bob wythnos yn ystod tymor y Cynulliad ac felly bu'n rhaid iddo weithio i amserlenni caeth iawn. Fodd bynnag, bu'r Pwyllgor yn rhedeg yn ddiraffferth. Gosodwyd pob Offeryn Statudol drafft ac

adroddiadau'r cynghorwyr cyfreithiol ar agenda cyfarfodydd yn fuan ar ôl dyddiad gosod y ddeddfwriaeth ddrafft gerbron y Cynulliad. Nod Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor oedd sicrhau bod gan yr Aelodau bob papur ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.22. Ar ôl pob cyfarfod, sicrhodd yr Ysgrifenyddiaeth fod Adroddiadau'r Pwyllgor yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl, ar yr un diwrnod fel arfer. Cafodd yr adroddiadau a'r cofnodion eu rhoi ar y rhyngwyd o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgor. Anfonwyd pob llythyr Rheol Sefydlog 11.6 (h.y., llythyrau gan y Cadeirydd yn hysbysu'r Gweinidog bod y Pwyllgor wedi gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i Orchmynion arfaethedig y Cynulliad) o fewn yr amserlen hefyd.

GWEITHGAREDDAU ERAILL

DEFNYDDIO TROEDNODIADAU WEDI'U RHIFO YN LLE RHAI Â LLYTHRENAU

Ym mis Medi 2004 trafododd y Pwyllgor y cynnig i ddefnyddio troednodiadau wedi'u rhifo yn lle rhai â llythrennau: pan roddwyd y troednodiadau mewn deddfwriaeth ddwyieithog ochr yn ochr, nid oeddent yn cyfateb o ganlyniad i'r gwahaniaethau yn y wyddor Gymraeg a Saesneg. Argymhellodd y Pwyllgor mai'r ffordd orau o ddatrys y broblem hon fyddai defnyddio troednodiadau wedi'u rhifo, yn unol â'r bwriad gwreiddiol pan agorwyd y Cynulliad. Ni roddwyd y bwriad hwn ar waith cyn hyn oherwydd yr anawsterau cyhoeddi (h.y. problemau sy'n codi o ganlyniad i'r system electronig yn methu â delio â'r rhifau awtomatig). Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor i ddefnyddio rhifau ar gyfer troednodiadau i osgoi anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol a chafodd ei weithredu ar 1 Ionawr 2005.

ANFANTEISION Y WEITHDREFN WEITHREDOL

Amlygodd y Pwyllgor anfanteisio defnyddio'r weithdrefn Weithredol ym mis Hydref 2004 wrth drafod LC962 - "Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru)" a LC961- "Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004": roedd yn amhosibl cywiro unrhyw gamgymeriadau tan y cyhoeddiad nesaf. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidogion perthnasol ar y ddau achlysur i'w hysbysu o'r broblem.

CYSONDEB O RAN DRAFFTIO IS-DEDDFWRIAETH

Ym mis Chwefror 2005 wrth ystyried, ymhlith rhai eraill, LC1008 - "Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005", LC1012 - "Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005", LC1030 - "Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Cymru) 2005" nododd y Pwyllgor y diffyg cysondeb mewn dwy ffordd: yn gyntaf, roedd rhai Offerynnau Statudol yn nodi: "... yn gymwys

mewn perthynas â Chymru yn unig...", tra y bo eraill yn defnyddio'r geiriau "mewn perthynas â Chymru" heb y geiriau "yn unig"; ac yn ail, gyda rhai Offerynnau Statudol, nodwyd y dyddiad dod i rym fel, er enghraifft, "1 Ebrill 2005", ond mewn eraill nodwyd y dyddiad gyda diwedd y trefnolion: 1^{af}, 2^{il} ac ati. Weithiau byddai'r gwahaniaethau hyn yn ymddangos yn yr un darn o ddeddfwriaeth.

Mewn cysylltiad â'r gwahaniaeth rhwng yr ymadroddion "â Chymru yn unig" ac yn syml "â Chymru" roedd y Pwyllgor yn poeni efallai na fyddai'r bobl sy'n darllen y ddeddfwriaeth yn deall mai dim ond gwahaniaeth o ran arddull yw hwn. Credai'r Aelodau hefyd efallai fod modd camddehongli'r geiriau "â Chymru yn unig" fel israddio'r ddeddfwriaeth. O ganlyniad, nododd y Pwyllgor y byddai'n well defnyddio'r ymadrodd "mewn perthynas â Chymru" heb y geiriau "yn unig". Hysbysodd y Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol o'r hyn a oedd yn destun pryder i'r Pwyllgor. Cytunodd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol gyda'r pwynt a godwyd gan y Pwyllgor a chymerwyd y mesurau cyfatebol (h.y. hysbyswyd y cyfreithwyr drafftio o'r broblem ac fe'u cynghorwyd i ddefnyddio'r cyfuniad o eiriau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor).

O ran yr anghysondebau yn y cyflwyniad o'r dyddiadau dod i rym, cytunodd y Pwyllgor gyda bwriad Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol i fabwysiadu dull mwy cyson a defnyddio'r rhifau yn unig heb unrhyw drefnolion ar y diwedd yn Gymraeg ac yn Saesneg ym mhob deddfwriaeth a luniwyd o hynny allan.

DIWYGIO RHEOL SEFYDLOG 11.7

Ym mis Chwefror 2005 mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynglŷn â defnyddio iaith rhyw benodol mewn is-ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor. Cydnabu'r Aelodau y gwnaed y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth cyn datganoli, ar adeg lle'r oedd yn arferol defnyddio iaith rhyw benodol. Fodd bynnag, credai'r Aelodau fod y Pwyllgor Deddfau'n trefnu ei agenda ei hun ac y dylai fod yn gallu gwneud y newidiadau angenrheidiol yn ôl yr angen. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol iawn bod y Cynulliad Cenedlaethol yn annog pobl i ddefnyddio iaith nad yw'n cyfeirio at ryw benodol pryd bynnag y bo'n bosibl. Golygai datganoli y gallai'r Pwyllgor osod cysail newydd a mynegi'r farn y dylai iaith rhyw benodol gael ei chywiro pan godai (er nad yn ôl-weithredol mewn perthynas â deddfwriaeth a wnaed cyn datganoli).

Rhywbeth arall a oedd yn destun pryder oedd cymaint o ddeddfwriaeth a gyflwynir yn Saesneg yn unig. Roedd Offerynnau Statudol o'r fath fel arfer yn dilyn y weithdrefn Weithredol ac eglurhad y Gweinidogion o absenoldeb y testunau Cymraeg oedd "o dan yr amgylchiadau penodol na fyddai'n briodol neu na fyddai'n ymarferol rhesymol i'r Gorchymyn fod yn y ddwy iaith". Ysgrifennodd y Pwyllgor sawl llythyr at y Gweinidogion perthnasol yn eu hysbysu o'r broblem. Rhestrir rhai o'r Offerynnau Statudol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn Saesneg yn unig ac a nodwyd yn y llythyrau hynny isod:

- *The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 (LC1042)*
- *The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2005 (LC1044)*
- *The Central Rating List (Wales) Regulations 2005 (LC1050)*
- *The Fodder Plant Seed (Wales) Regulations 2005 (LC1056)*
- *The Council Tax (Situation and Valuation of Dwellings) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 (LC1059)*
- *The Council Tax (Reductions for Disabilities and Transitional Arrangements) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 (LC1060)*
- *The Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Wales) Regulations 2005 (LC1061)*

Ym mis Mawrth 2005 gwahoddodd y Pwyllgor Gwnsler Deddfwriaethol Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Keith Bush, a'r Prif Gyfieithydd Cyfreithiol, Richard Crowe, i fynychu'r Pwyllgor i drafod y defnydd o iaith rhyw benodol a thestun sydd yn Saesneg yn unig mewn diwygiadau i reoliadau cyn datganoli.

Hysbysodd y Cwnsler Deddfwriaethol yr Aelodau fod Senedd a Llywodraeth y DU yn deddfu yn Saesneg yn unig a'u bod yn defnyddio "he" a "his" er mai'r ystyr oedd "he or she" neu "his and hers". Roedd Gweinidogion y DU a wnâi is-ddeddfwriaeth yn dilyn yr un drefn at ei gilydd. Roedd yr arfer o ddefnyddio'r dull dan sylw wedi'i hwyluso gan adran 6 Deddf Ddehongli 1978 a wnâi'r ddarpariaeth y gellid ystyried mewn unrhyw Ddeddf, oni bai y bo'n amlwg nad dyna'r bwriad, fod geiriau gwrywaidd eu cenedl yn cynnwys y benywaidd. Yn unol ag Adran 23 o'r Deddf Ddehongli câi'r arfer ei ymestyn i is-ddeddfwriaeth. Yna, crynhodd y Cwnsler Deddfwriaethol fod Deddf Ddehongli 1978 yn caniatáu'r defnydd o "he" i awgrymu "he" neu "she".

Ar ôl trafodaeth, daeth yr Aelodau i'r casgliad canlynol:

- bod y broblem yn bodoli yn gyffredinol, p'un a oedd y ddeddfwriaeth yn un a oedd yn diwygio ai peidio;
- mai'r Cynulliad Cenedlaethol oedd yn llunio'r ddeddfwriaeth ac felly os nad oedd am ddefnyddio iaith rhyw benodol yn ei ddeddfwriaeth, byddai'n rhaid i bob cyfreithiwr ddilyn y canllawiau hynny;
- ni fyddai'r cynllun y byddai'r ddeddfwriaeth hen ffasiwn yn cael ei disodli'n raddol dros y blynyddoedd gan ddyfodiad y ddeddfwriaeth newydd ond yn cael ei wireddu pe bai yna fecanwaith a ddywedai wrth bobl pryd a sut y dylai ddigwydd;
- pe byddai Deddf Ddehongli 1978 yn cael ei defnyddio fel esgus dros ddefnyddio iaith rhyw benodol, byddai'n ddoeth diwygio'r Ddeddf honno;
- roedd yn rhaid i draddodiad ieithyddol newid gydag amser. Ni ddylai'r Cynulliad hwn fod yn rhwym i draddodiad cyn datganoli.

Ysgrifennodd y Cadeirydd at Rhodri Morgan, y Prif Weinidog i'w annog i lobio Senedd y DU i ddiwygio Deddf Ddehongli 1978. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes yn codi'r mater ac o ganlyniad i hyn cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes gynnig y Pwyllgor Deddfau i ddiwygio Rheol Sefydlog 11.7 i atgyfnerthu ei sefyllfa mewn perthynas â defnyddio iaith rhyw benodol a deddfwriaeth na chaiff ei chyfieithu. Cymeradwywyd cynnig y Pwyllgor yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 12 Gorffennaf 2005 a diwygiwyd Rheol Sefydlog 11.7 yn unol â hynny.

LC996 - RHEOLIADAU CYNHYRCHION SY'N TARDDU O ANIFEILIAID (MEWNFORION TRYDYDD GWLEDYDD) (CYMRU) 2005

Ystyriodd y Pwyllgor y Rheoliadau hyn yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2005, gan nodi nad oedd yr Offeryn Statudol hwn yn cynnwys llawer o newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth Ewropeaidd. Argymhellodd yr Aelodau y dylid tynnu'r Rheoliadau hyn yn ôl a'u hailgyflwyno ar ffurf ddiwygiedig. Yn y cyfarfod ar 1 Mawrth 2005 nododd y Pwyllgor fod y Gweinidog wedi cytuno â'r argymhelliad a pharatowyd drafft wedi'i gywiro.

LC1053 - RHEOLIADAU ASiantaethau MABWYSIADU (CYMRU) 2005

Yn y cyfarfod ar 12 Ebrill 2005, nododd yr Aelodau fod yr adroddiad drafft ar y Rheoliadau hyn yn amlygu 25 o bwyntiau o dan Reol Sefydlog 11.7 a'i fod yn bedair tudalen o hyd. Roedd y problemau hyn yn cynnwys enghreifftiau o ddrafftio diffygiol a'r anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. O ran nifer y cywiriadau, ac yn bwysicach, eu natur, penderfynodd y Pwyllgor nad oedd yn briodol cywiro'r gwallau gan Femorandwm Cywiriadau. Felly, gohiriodd yr Aelodau ystyried y Rheoliadau er mwyn gallu cyflwyno fersiwn diwygiedig yn cynnwys y cywiriadau.

LC1105 - RHEOLIADAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (TREULIAU TEITHIO A PHEIDIO Â CHODI TÂL) (DIWYGIO) (CYMRU) 2005

Yn y cyfarfod ar 21 Mehefin 2005 nododd yr Aelodau fod y Pwyllgor Deddfau, yn 2001, wedi awgrymu y dylid ystyried gwneud ailddeddfiad wedi'i gydgrynhoi o Reoliadau 1988 ar gyfer Cymru mewn perthynas â'r set flaenorol o Reoliadau diwygio (LC341). Ailadroddwyd yr awgrym hwn yn adroddiad y Pwyllgor ar LC686. Gwnaed ail set o ddiwygiadau yn 2003, dwy set arall yn 2004 ac roedd Rheoliadau 1988 erbyn hyn yn cael eu diwygio ymhellach. Nododd y Pwyllgor hefyd, er eu bod erbyn hyn yn berthnasol i Gymru'n unig, fod y Rheoliadau hyn ar gael yn Saesneg yn unig o hyd. O gofio'r angen brys i gyfuno er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn fwy hygyrch a chynhwysfawr yn y ddwy iaith, penderfynwyd hysbysu'r Gweinidog o'r sefyllfa. Ystyrir ymateb y Gweinidog yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ystod yr hydref.

LC1108 - RHEOLIADAU ADDYSG (TREFNIADAU YMSEFYDLU AR GYFER ATHRAWON YSGOL) (CYMRU) 2005

Ystyriodd y Pwyllgor y rheoliadau hyn yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2005. Tynnodd yr Aelodau sylw at y cyfeiriad at hepgor pŵer i wrthod apêl a nodwyd o dan Sylwadau yn yr adroddiad drafft, ac roeddent yn poeni y byddai hynny'n achosi anawsterau i'r panel. O ganlyniad i'r ffaith nad oedd tystiolaeth o ran faint o apelyddion nad oedd yn fodlon cydymffurfio â'r gofyniad, roedd yn amhosibl cadarnhau a fyddai hyn yn broblem. Cytunwyd tynnu sylw'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes at y mater hwn a'i gynghori i barhau i adolygu'r broses o weithredu'r Offeryn Statudol hwn.

LC1084 - GORCHYMYN TAI (HAWL I BRYNU) (BLAENORIAETH ARWYSTLON) (CYMRU) 2005

Ystyriodd y Pwyllgor y Gorchymyn hwn ar 10 Mai 2005. Ni ddaeth yr Aelodau o hyd i unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7, ond nodwyd o dan Sylwadau fod gan bob cwmni rifau wyth digid yn y Gofrestr Cwmnïau; er mai dim ond un cwmni ar y rhestr oedd â'r rhif llawn yn yr Offeryn Statudol. Er bod adroddiad y Pwyllgor yn nodi bod y newidiadau hyn mor fach y gellir eu cywiro wrth gyhoeddi, nododd y Gweinidog sylwadau'r Pwyllgor ac anfonodd ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor. Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith mai dyma'r tro cyntaf ers i'r Pwyllgor ddechrau ei waith i unrhyw Weinidog ymateb i adroddiad y Pwyllgor heb gael ei ofyn/gofyn i wneud hynny a dylid nodi ymateb y Gweinidog yn arbennig gan mai sylw ydoedd yn hytrach na phwynt cofnodi.

Nododd yr Aelodau fod yna ddadl ddilys o blaid y ddwy ochr, ond gan fod y Gweinidog yn credu'i fod yn ddigon pwysig ysgrifennu at y Pwyllgor derbyniodd ei barn. Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog yn diolch iddi am ei diddordeb yn sylwadau'r Pwyllgor gan fynegi boddhad y Pwyllgor gyda'i hesboniadau.

CRAFFU AR Y PAPUR GWYN: TREFN LYWODRAETHU WELL I GYMRU CYFRANIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU I'R PWYLLGOR AR Y PAPUR GWYN, TREFN LYWODRAETHU WELL I GYMRU

Ar 4 Gorffennaf 2005 rhoddodd y Cadeirydd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y Papur Gwyn, Trefn Lywodraethu Well i Gymru. Ar ôl trafod y mater ymhellach gyda'r Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Gorffennaf, cyflwynodd y Cadeirydd gyfraniad ysgrifenedig ar ran y Pwyllgor, gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- byddai angen i'r Llywodraeth roi trefniadau rheoli ansawdd mwy caeth ar waith mewn perthynas â deddfwriaeth o'r fath oherwydd ni fyddai'r weithdrefn Memorandwm Cywiriadau ar gael yn gyffredinol;
- byddai angen mabwysiadu gweithdrefnau cyfatebol mewn perthynas â phwerau newydd er mwyn llunio is-ddedfwriaeth;

- byddai angen craffu ar Fesurau San Steffan sy'n rhoi mwy o bwerau i Gymru (yn ogystal â Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau arfaethedig) i sicrhau y dyrennir y pwerau yn briodol i Weinidogion ac i'r Cynulliad;
- gellid rhoi swyddogaethau o'r fath i Bwyllgor Deddfau cryfach, fel yn yr Alban;
- dylid sefydlu Pwyllgor Deddfau gwell, ond dylid dileu'r darpariaethau mewn cysylltiad â'r Pwyllgor o ddeddfwriaeth sylfaenol - dylai'r Cynulliad fod yn gallu rhoi pwerau a dyletswyddau i'r Pwyllgor sy'n briodol ym marn y Cynulliad;
- dylid cadw at y trefniadau presennol o ran cydbwysedd pleidiau ar y Pwyllgor a phenodi ei Gadeirydd;
- bydd y Pwyllgor am fod yn rhan o'r broses ymgynghori ar baratoi gweithdrefnau a Rheolau Sefydlog ar gyfer 2007.

LC999 - RHEOLIADAU'R DRETH GYNGOR (TREFNIADAU TROSIANNOL) (CYMRU) 2004 ac LC1060 - THE COUNCIL TAX (REDUCTIONS FOR DISABILITIES AND TRANSITIONAL ARRANGEMENTS) (WALES) (AMENDMENT) REGULATIONS 2005

Ystyriodd y Pwyllgor LC999 - "Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Trefniadau Trosiannol) (Cymru) 2004" yn y cyfarfod ar 11 Ionawr 2005. Nododd yr Aelodau y lluniwyd y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn Weithredol gyda diffygion difrifol.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog a addawodd y byddai'n cywiro'r ddeddfwriaeth a gwnaed hynny a daeth i rym ar 16 Mawrth 2005 (LC1060 - "The Council Tax (Reductions for Disabilities and Transitional Arrangements) (Wales) (Amendment) Regulations 2005"). Dengys y ffordd hon o ddatrys problemau a gafodd eu pennu mewn deddfwriaeth sy'n dilyn y weithdrefn Weithredol sut y mae'n bosibl y bydd gweithdrefnau'r Pwyllgor Deddfau'n gweithio ar ôl 2007.

LC1023 - RHEOLIADAU CWOTÂU CYNNYRCH LLAETH (CYMRU) 2005

Ystyriodd y Pwyllgor LC1023 - "Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005" yn y cyfarfod ar 22 Chwefror 2005. Argymhellodd y Pwyllgor restr hir o gywiriadau o dan Reol Sefydlog 11.7. Pan gyhoeddwyd y Rheoliadau hyn, gwnaed yr holl newidiadau, ond ni chafodd yr amwysedd y cyfeirir ato yn ail hanner pennod 15 yr adroddiad ei ddatrys: y bwriad oedd gadael i'r llys benderfynu barnwr o ba lefel a ddylai ddelio â materion penodol.

OFFERYNNAU STATUDOL A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

- LC945 Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbed) (Cymru) 2004
- LC946 Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2004
- LC947 Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2004
- LC948 Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004
- LC949 Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif. 7) (Cymru) 2004
- LC950 Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2004
- LC951 Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Terfyn Ariannol) 2004
- LC952 Gorchymyn y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Mesur Trosiannol sy'n Ymwneud â Phartneriaid Anghlinigol) (Cymru) 2004
- LC953 Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Aifft (Cymru) 2004
- LC954 Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004
- LC955 Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004
- LC956 Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2004
- LC957 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2004
- LC958 Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modiwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004
- LC959 Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Deddf Ymaelodi ynghylch y Weriniaeth Tsiec a Gwladwriaethau eraill) (Diwygiadau Canlyniadol) 2004
- LC960 Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004
- LC961 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004
- LC962 Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2004
- LC963 Rheoliadau Prynu Tir Yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004
- LC964 Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004
- LC965 Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2004

- LC966 Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) (Cyrrff Cyhoeddus) (Cymru) 2004
- LC967 Gorchymyn Tatws o Wlad Pwyl (Hysbysu) (Cymru) 2004
- LC968 Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2004
- LC969 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2004
- LC970 The Oil and Fibre Plant Seed (Wales) Regulations 2004
- LC971 Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004
- LC972 Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub (Cychwyn) (Cymru) 2004
- LC973 Rheoliadau Cynllun y Taliad Sengl ac Amrywiol Gynlluniau Cymorth Uniongyrchol (Apelau) (Cymru) 2004
- LC974 Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004
- LC975 Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) (Diwygio) (Cymru) 2004
- LC976 Gorchymyn Deddf Dwr 2003 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2004
- LC977 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2004
- LC978 Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004
- LC979 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004
- LC980 Gorchymyn Addysg (Cyrrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004
- LC981 Rheoliadau Porthiant, Porthiant (Samplu a Dadansoddi) a Phorthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2004
- LC982 Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004
- LC983 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004
- LC984 The Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No1) Order 2004
- LC985 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2) 2004
- LC986 Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004
- LC987 Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Apelau) (Cymru) 2004
- LC988 Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2004

- LC989 Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004
- LC990 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004
- LC991 Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004
- LC992 Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2004
